Pecyn cyflwyno cais Aseswyr Grantiau Taith

Llwybr 1: Symudedd

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 25 Tachwedd 2022

1. Beth yw Taith?

Mae Taith yn rhaglen symudedd sy'n cynorthwyo dysgwyr, pobl ifanc a staff yng Nghymru i astudio, hyfforddi, gwirfoddoli a gweithio ledled y byd. Mae hefyd yn cynorthwyo sefydliadau yng Nghymru i wahodd partneriaid rhyngwladol i anfon dysgwyr, pobl ifanc a staff i Gymru i elwa ar weithgareddau tebyg, yng Nghymru. Bydd y rhaglen bedair blynedd, y mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £65m ynddi, yn cynorthwyo prosiectau fydd yn cael eu cynnal rhwng 2022 a 2026. Gyda lwc, bydd tua 15,000 o bobl o Gymru yn cymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid tramor, a bydd 10,000 yn dod i ddysgu, astudio neu weithio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd y rhaglen ar gael i ddysgwyr a staff ar bob lefel yn y sectorau canlynol:

- Ysgolion
- Ieuenctid
- Addysg Bellach
- Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol
- Addysg Oedolion
- Addysg Uwch

Bydd y gweithgareddau'n rhai byd-eang ac yn rhoi amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgu, astudio a gweithio megis:

- Symudedd allanol – Pobl ifanc a dysgwyr ar bob lefel.
- Symudedd allanol – Staff.
- Symudedd mewnol – Pobl ifanc, dysgwyr a staff (hyd at 30% o'r arian sydd wedi'i roi ar gyfer teithio gan ddysgwyr/staff).

Bydd tri llwybr ariannu i gynorthwyo gweithgareddau rhyngwladol yn y sector Addysg Gymraeg, sef:

i. Llwybr 1 - Mae'r llwybr hwn yn cefnogi symudedd allanol a mewnol corfforol, rhithwir a chyfunol ar gyfer unigolion neu grwpiau o unigolion, er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, gweithio neu wirfoddoli dramor am gyfnod byrdymor neu hirdymor hyblyg.

ii. Llwybr 2 - Mae'r llwybr hwn yn cefnogi datblygiad prosiectau cydweithredol rhyngwladol a arweinir gan sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru

iii. Llwybr 3 - Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o gynyddu capasiti ar gyfer symudedd rhyngwladol. Mae Llwybr 3 yn dal i gael ei ddatblygu

Ar ben hynny, bydd Taith yn caniatáu i sefydliadau wneud cais am gyllid i helpu sefydliadau i annog pobl o gefndiroedd difreintiedig i gymryd rhan.

2.0 Prif amcanion Taith

Pum prif amcan Taith yw:

1. Cyflwyno rhaglen gynhwysol, Cymru-gyfan er mwyn cael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn cyfnewidiadau rhyngwladol; hynny er mwyn, ehangu gorwelion a hyder pobl ifanc, dysgwyr a staff ar bob lefel yng Nghymru, rhoi cyfleoedd sy'n-gwella-bywyd iddynt, ac er mwyn eu cefnogi i fod yn uchelgeisiol ac yn ddysgwyr galluog trwy gydol eu bywydau.

2. Hyrwyddo cydweithio rhwng sefydliadau Cymreig a rhyngwladol; cydweithio sydd yn galluogi cyfnewidiadau dysgu dwy-ffordd, yn rhoi budd i bawb sy'n gysylltiedig, meithrin cysylltiadau rhyngwladol, a chefnogi'r sectorau addysg, gan gynnwys gwaith ieuenctid ac addysg oedolion.

3. Annog gweithgareddau uchelgeisiol, arloesol a chreadigol o'r radd flaenaf ym maes cyfnewidiadau addysg rhyngwladol a chydweithio.

4. Codi proffil rhyngwladol Cymru fel cenedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang, sydd wedi ymrwymo i adeiladu ar ei hetifeddiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol.

5. Helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trawsnewid ymgysylltu rhyngwladol, ac o ran datblygu rhagoriaeth yn y sectorau addysg rhyngwladol ac ieuenctid, trwy gamau cynaliadwy sydd yn rhoi budd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

3.0 Aseswyr Grantiau – Galwad am geisiadau

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion sydd â'r diddordeb a'r profiad i ymuno â chronfa o aseswyr ar gyfer y rhaglen Taith i asesu ceisiadau ar gyfer galwad Llwybr 1 2023 a fydd yn lansio ym mis Ionawr 2023.

Bydd aseswyr yn dod o ystod o gefndiroedd ac, yn ddelfrydol, byddant yn cynnwys cydweithwyr sydd â phrofiad o weithio mewn cyd-destun rhyngwladol.

4.0 Rôl Asesydd Grantiau

Bydd "Canllaw i Aseswyr Grantiau" Taith ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus a bydd yn rhoi manylion am y rôl. Bydd Taith yn gwneud yn siŵr y bydd y broses o asesu ceisiadau am gyllid yn dilyn proses dryloyw sy'n gwarantu bod pawb sy'n gwneud cais yn cael eu trin yn ddiduedd ac yn yr un modd.

Felly, rhaid i bob asesydd grantiau a benodir allu dangos ei fod yn gallu gweithredu'n gwbl ddiduedd wrth ymgymryd â'r gwaith a rhaid iddo ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi i fod yn rhan o gronfa o aseswyr a bydd yn cael ei neilltuo i asesu ceisiadau ar gyfer sector(au) penodol. Bydd Taith yn gwneud pob ymdrech i neilltuo gwaith asesu i bob asesydd. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn oherwydd bydd y gwaith a gaiff ei ddyrannu i unigolion yn dibynnu ar ffactorau fel nifer y ceisiadau.

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r rôl a'r hyn y mae Taith yn ei ddisgwyl gan yr aseswyr a benodir.

i. Bydd yn ofynnol i bob asesydd ymgymryd â rhaglen hyfforddi fanwl a'i chwblhau ar 7/8 Chwefror 2023. Bydd disgwyl bod aseswyr wedi darllen Canllawiau Rhaglen Taith Llwybr 1 2023 cyn y sesiwn.

ii. Bydd angen i bob asesydd fod ar gael i asesu ceisiadau sefydliadau rhwng 7 Ebrill 2022 a 26 Mai 2023. Gofynnir bod aseswyr hefyd ar gael hyd at 11 Awst 2023 ar gyfer gwaith dilynol posibl

iii. Bydd yn ofynnol i aseswyr ddarllen ac asesu pob cais yn erbyn meini prawf asesu y cytunwyd arnynt. Bydd aseswyr yn rhoi asesiad teg, diduedd, cyson a chywir o geisiadau prosiect a fesurir yn erbyn amcanion y Llwybr Ariannu.

iv. Bydd yn ofynnol i aseswyr baratoi adroddiad manwl ar sut yr asesir pob cais o fewn y terfynau amser penodedig. Caiff hyn ei wneud drwy roi sylwadau a thrwy bennu marciau i nodi i ba raddau y mae'r meini prawf priodol wedi'u bodloni. Ar ben hynny, bydd yr asesydd yn penderfynu a yw'r cais yn bodloni'r trothwy.

v. Bydd pob cais yn cael ei asesu gan ddau aseswr. Bydd gan yr aseswr arweiniol cyfrifoldeb am baratoi'r asesiad cyfunol.

vi. Gofynnir i un asesydd o bob sector mynychu'r Pwyllgor Dyfarnu Grantiau. Yn y cyfarfod hwn y gwneir penderfyniadau ar bob cais am grant, ac mae'n awdurdodi Taith i roi gwybod i'r rhai sydd wedi cyflwyno ceisiadau am y canlyniadau.

vii. Bydd yn ofynnol i aseswyr gadw cofnodion manwl o'u horiau gwaith.

viii. Mae Taith yn cadw'r hawl i atal taliadau mewn achosion lle nad yw'r asesiad a gynhaliwyd yn bodloni'r trothwy gofynnol o ran ansawdd.

5.0 Meini Prawf Hanfodol a Dymunol i Aseswyr Grantiau

Bydd Darpar Aseswyr yn cael eu hasesu ar sail eu gallu i ymgymryd â'r prif dasgau fel yr amlinellir yn adran 4.0. Bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais.

Meini prawf hanfodol

1. Profiad helaeth o fod wedi gweithio yn o leiaf un o sectorau addysg a dysgu Taith.
2. Dealltwriaeth eang o sut y cyflwynir gweithgareddau dysgu yn y sector perthnasol.
3. Dealltwriaeth o'r sectorau addysg a dysgu Cymraeg.
4. Dealltwriaeth eang a/neu brofiad ymarferol o raglenni symudedd.
5. Dealltwriaeth neu brofiad o gyflwyno/asesu cais am grant.
6. Profiad o ysgrifennu adroddiadau.
7. Y gallu i ddefnyddio rhaglenni TG, gan gynnwys Microsoft Excel, Word,Teams
8. Meddu ar gyfrif banc yn y DU sydd wedi'i gofrestru yn eich enw chi neu enw eich busnes ei hun. Ni dderbynnir cyfrifon banc sydd wedi'u henwebu, a bydd taliadau'n cael eu gwneud mewn punnoedd Prydeinig.
9. Ar gael ar gyfer hyfforddiant ar 7/8 Chwefror ac i asesu ceisiadau rhwng 7 Ebrill a 11 Awst 2023.

Meini prawf dymunol

10. Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

11. Profiad o fod wedi ymgymryd â phrosiectau symudedd .

6.0 Hyfforddiant

Bydd y gweminar gorfodol i aseswyr, yn cael ei gyflwyno ar naill ai 7 neu 8 Chwefror 2023. Bydd y rhaglen yn ymdrin â'r pynciau canlynol:

- Cefndir cyffredinol Rhaglen Taith, ei hamcanion a'i blaenoriaethau.
- Cefndir manwl yr alwad am gais ar gyfer Llwybr 1, yn ogystal â dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng y chwe sector.
- Dealltwriaeth o'r polisïau dwyieithog ac esboniad o'r broses gyfieithu ar gyfer ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg.
- Gwybodaeth gefndirol am strwythur a manylion sector(au) Taith yng Nghymru.
- Trosolwg manwl o'r "Canllaw i'r Rhaglen" ar gyfer Taith gyda phwyslais arbennig ar y gwahaniaethau rhwng y sector(au) perthnasol ac unrhyw ofynion neu waharddiadau penodol.
- Y methodoleg asesu i aseswyr, a'r broses o baratoi adroddiadau, gan gynnwys meini prawf marcio a phenderfynu ar sut y bodlonir y trothwy dyfarnu.
- Cymeradwyo gweithdrefnau a rôl y Pwyllgor Dyfarnu Grantiau.
- Methodoleg Ariannu Taith.
- Talu Aseswyr.
- Trefniadau cytundebol.
- Ffug asesiad

Bydd disgwyl bod aseswyr wedi darllen Canllawiau Rhaglen Taith Llwybr 1 2023 cyn y gweminar.

7.0 Y broses ymgeisio a'r dyddiad cau

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno datganiad o ddiddordeb a *curriculum vitae* cyfredol erbyn y dyddiad cau, sef **12PM 25 Tachwedd 2022 at** ymholiadau@taith.cymru

Rhaid i'r ymgeisydd allu dangos nad oes ganddo unrhyw rwymedigaethau cytundebol a fyddai'n atal y gwaith rhag cael ei wneud, a bydd disgwyl iddo gadarnhau hyn ymlaen llaw.

Gofynnir i ymgeiswyr nodi ceisiadau o ba sectorau y maent am eu hasesu.

8.0 Materion cytundebol

Cyfraddau tâl

- £75 fesul asesiad
- £50 fesul asesiad cyfunol
- £75 fesul ail-asesiad
- £50 fesul adolygiad
- £100 for am fynd i'r Pwyllgorau Dyfarnu Grantiau

Hyd y rôl

Bydd asesiadau'n cael eu cwblhau rhwng 7 Ebrill 2023 a 26 Mai 2023 i gynnwys asesiadau cyfunol, gwirio ansawdd ac unrhyw ail-asesiadau.

Cynhelir Pwyllgorau Dyfarnu Grantiau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 5 Mehefin 2023.

Mae'n bosibl y bydd asesiadau dilynol rhwng 12 Mehefin a 11 Awst 2023.

Efallai y bydd rhagor o gyfleoedd i asesu ar gyfer Llwybrau 2 a 3 nes ymlaen yn 2023.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Ar ôl iddynt gael eu penodi, mae'n ofynnol i bob asesydd grantiau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat, proffesiynol neu fasnachol a allai fynd yn groes i fuddiannau Taith, neu'n fuddiannau a allai gael eu hystyried fel rhai sy'n creu gwrthdaro yn nhyb pobl eraill.

Taith.cymru

Taith.wales